

Tymor yr Hydref

Blwyddyn 3 a 4

Thema'r Tymor: Ni ein Hunain

Cymraeg

Rydym yn astudio y llyfr 'Teleri Tynnu Coes' gan Colin West y tymor yma. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i chwarae rol, recordio eu gwaith a llawer mwy. Byddwn yn gweithio ar y gwaith gramadeg sylfaenol ag hefyd y llawysgrifen.

Saesneg

'Crab-boy Cranc' gan Julie Rainsbury yw y llyfr y tymor yma. Mae'n lyfr diddorol iawn gan awdur o Gymru. Byddwn yn cynnal profion sillafu wythnosol ynghyd a gweithgareddau llawysgrifen.

Mathemateg

Byddwn y tymor yma yn gweithio ar werth rhif, patrymau llusoi, rhannu, adio, tynnu, cyflwyno ffracsiynnau, mesur, amser analog a phatrymau.

Yn ystod yr hanner tymor cyntaf byddwn yn edrych ar "Siâp, safle a symud", yn bennaf enwau a priodweddau siapiau 2D a 3D. Ar ôl hanner tymor byddwn yn astudio "Trin Data". Byddwn yn casglu data a cyflwyno data mewn amrwyiaeth o ffyrdd e.e siartiau bar, tablau a pictogramiau.

Gwyddoniaeth

'Y Corff' yw y thema yn ein gwersi gwyddoniaeth y tymor yma. Byddwn yn edrych ar labeli a dysgu am wahanol organau yn ein corff. Byddwn yn edrych ar sut mae deiet gytbwys a chadw'n heini yn cael effaith positif ar ein corff.

Hanes

Y Celtiaid yw ein thema y tymor yma. Byddwn yn dysgu am fywydau bob dydd y celtiaid yn yr oes haearn. Byddwn hefyd yn mynd am daith i Gastell Henllys i weld artiffactiau o'r oes haearn.

Daearyddiaeth

Ail-gylchu o fewn ein ardal leol fydd ein prosiect y tymor yma. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i argymhell syniadau gwahanol ar sut i wella eu hardal leol.

Cerdd

Byddwn yn dysgu llawer o ganeuon newydd dros y tymor ar gyfer y gwasanaeth diolchgarwch ag hefyd y gwasanaeth nadolig. Bydd y disgyblion yn cyfansoddi, perfformio a gwerthuso eu gwaith cerddorol.

Celf

Portreadau fydd ein thema y tymor yma. Byddwn yn astudio artustiaid fel Augustus John a Picasso. Byddwn yn canolbwyntio ar yr elfennau lliw, tŷn a siâp.

Dylunio a Thechnoleg

Creu tŷ crwn Celtaidd yw'r dasg y tymor hwn. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i ddefnyddio offer pwrpasol a dysgu sut i werthuso eu gwaith yn bositif.

Addysg Gorfforol

Gymnasteg, rygbi a nofio bydd cael eu hastudio'r tymor hwn. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i ymgymryd mewn sawl gweithgaredd addysg gorfforol o fewn y cylch.

Addysg Grefyddol

Myfi fy hun yw ein thema felly byddwn yn edrych ar sut rydym yn perthyn i deulu byd eang. Byddwn yn edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y ffyrdd Cristion ac Iddewig o fyw. Byddwn yn edrych ar reolau crefyddol a seciwlar.